

# Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
2023-2028

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cyflwyniad

## Beth yw nod y Strategaeth hon?

Datblygwyd y Strategaeth Gyfathrebu hon er mwyn egluro'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyfathrebu gyda'i drigolion, ei bartneriaid, busnesau a phob aelod arall o'n cynulleidfa allweddol.

Mae'r Cyngor wedi ymroi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon i drigolion y Fwrdeistref Sirol, gan gadw ein cynulleidfaoedd yn hyddysg ynghylch ein penderfyniadau a chadw mewn cysylltiad â hwy drwy gydol y siwrnai. Ein dull o weithredu yw sicrhau bod ein gohebiaeth a'n gweithgaredd ymgysylltu'n addas a'i fod yn ein cynorthwyo ni i gyflawni ein gweledigaeth a'n amcanion.

Yn ogystal, mae'n diffinio'r ffordd y byddwn yn gwrando ac ymateb i'r hyn a ddwedir wrthym gan ein cynulleidfa mewn sgwrs ddwyffordd.



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council




## Cymeradwyo ac Adolygu

Bydd y strategaeth hon yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn gydag ymrwymiad i ystyried barn ein cynulleidfaoedd. Mae'n ddogfen 'fyw', sy'n golygu bydd yn newid yn ôl yr angen; a bydd yn cael ei werthuso a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn esblygu gyda deddfwriaeth newydd.

# Ein Cynulleidfa

Pwy ydyn nhw

Mae ein tîm Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu'n darparu gohebiaeth ddwyieithog o safon uchel a chefnogaeth i gynulleidfa amrywiol.

- Preswylwyr
- Busnesau a Buddsoddwyr
- Cyfryngau Ymwelwyr
- Partneriaid
- Grwpiau Cymunedol
- Staff
- Cynghorwyr
- Undebau Llafur
- Elusennau lleol
- Aelodau Senedd Cymru
- Aelodau Senedd San Steffan
- Y Llywodraeth



## A'r modd rydym yn ymgysylltu â hi:

- Ymgysylltu: ar lein ac yn y cnawd
- Hysbysebion
- Ymgynghori
- Gohebiaeth Ddigidol
- Rheolaeth Ymgyrchu
- Rheoli Digwyddiadau
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gohebiaeth Fewnol
- Perthnasau Cyfryngol
- Gohebiaeth Argyfwng

# Ein Nod

Byddwn yn weithredol yn ein hymdrech i ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd, gan annog adborth er mwyn ein cynorthwyo ni i ffurfio gwasanaethau'r dyfodol a siarad gyda'r sawl sy'n bwysig: y bobl rydym yn eu gwasanaethau, y bobl rydym yn eu cyflogi a'r sawl rydym yn gwneud busnes â hwy.

Ein bwriad yw darparu gohebiaeth berthnasol, o safon uchel, mewn amryw o ffyrdd er mwyn cynyddu dealltwriaeth pobl o'r Cyngor a'i wasanaethau.

Rydym hefyd yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda thrigolion, cyflogwyr a phartneriaid er mwyn gwrando ar eu barn a'u pryderon a, lle'n bosib, gweithredu ar y rhain.

# Gweledigaeth y Cyngor

Cryfhau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a sicrhau ei bod yn ardal y gallwn fod yn falch ohoni, rhywle lle:

**Gall pobl ddysgu a datblygu sgiliau er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau.**
**Rhywle lle gallant fyw, gweithio a chael bywyd diogel, iach, lle gallant wireddu eu dyheadau.**
**Rhywle lle fydd pobl yn ymweld, mwynhau a dychwelyd.**

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# Ein Blaenoriaethau Corfforaethol

[Darllenwch ein Strategaeth Gorfforaethol yn llawn fan hyn]

Mae Merthyr Tudful sy'n Anelu'n Uchel yn un sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn galluogi pobl i dyfu a gwireddu llawnder eu potensial

Merthyr Tudful Iachach Byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol llawn parch

Merthyr Tudful Diogel sy'n Ffynnu Byddwn yn cefnogi'r modd y bydd ein heconomi'n adfer a thyfu

Merthyr Tudful Glân a Gwyrdd Byddwn yn cefnogi creadigaeth amgylchedd glân a gwyrdd nawr ac yn y dyfodol

# Ein Prif Amcanion

A'r modd y byddwn yn eu cyflawni

## 1

**Sicrhau bod y Cyngor yn hawdd ei ddeall**

Byddwn yn creu cynnwys clir a chryno gan ddefnyddio iaith sy'n hawdd ei darllen, ar-lein ac all-lein.


Byddwn yn cyfathrebu mewn modd tryloyw, gonest ac agored gan sicrhau mai deunydd hawdd ei ddarllen yw ein blaenoriaeth.


## 2

**Sicrhau ei fod yn hawdd mynd at y Cyngor i siarad**

Byddwn yn annog sgyrsiau dwyffordd, a chreu amgylchedd o wrando lle gall pobl rannu eu barn, ddylanwadu ar newidiadau a chodi llais, drwy weithio gyda'n gilydd.

Darllenwch ein Strategaeth Cymryd Rhan fan hyn





Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

3

# Ein Prif Amcanion

A'r modd y byddwn yn eu cyflawni

Sicrhau fod pobl yn falch i fod yn rhan o Ferthyr Tudful

Byddwn yn parhau i hybu ein llwyddiannau, yn parhau i godi proffil Merthyr Tudful a meithrin balchder yn ein trigolion, ein staff, ein busnesau a'n partneriaid.

Byddwn yn cynyddu ein henw da, byddwn yn haws ein hadnabod ac yn fwy dibynadwy, byddwn yn fwrdeistref y mae pobl yn falch o weithio ynddi, o fyw ynddi o ymweld, ac yn falch i wneud busnes â ni.

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

4

Sicrhau bod ein gweithlu yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan drwy ohebiaeth fewnol dda

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr a'n cynghorwyr yn ddigon hyddysg i allu cynrychioli a chefnogi'r cyngor yn y gymuned drwy anfon diweddariadau cyson a thrwy gynnal sgyrsiau dwyffordd.






# Ein Prif Amcanion

A'r modd y byddwn yn eu cyflawni

## Cynyddu, tyfu a chryfhau ein partneriaethau

Byddwn yn parhau i gryfhau'r partneriaethau cyfredol, gwych hynny sydd gennym yn barod drwy gydweithio gyda grwpiau cymunedol lleol, y sector wirfoddol, byrddau iechyd a'r heddlu.







## Defnyddio sianeli cyfathrebu digidol er mwyn adrodd ein storïau a gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd

Byddwn yn creu cynnwys ar-lein arloesol ac atyniadol sy'n berthnasol i'n cynulleidfaoedd.

Byddwn yn ehangu ac yn datblygu yn unol â'r newidiadau mewn tueddiadau digidol.





# Gwerthuso

## Dysgu beth yw'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei wella.

Gall cadw llygad ar rai elfennau o ohebiaeth fod yn heriol, serch hynny hawdd yw cadw golwg ar y meysydd canlynol:

- Y nifer o ymatebion a geir i ymgynghoriadau
- Cysylltu drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol – lle mae ein sylwadau'n cyrraedd, faint o bobl sy'n eu 'hoffi', faint o bobl sy'n gadael sylw, neu'n rhannu ar hyd ein sianeli
- Dilynwyr Cyfryngau Cymdeithasol – y nifer o bobl newydd sy'n 'hoffi' neu'n 'dilyn' ein tudalennau ar wahanol orsafoedd, ochr yn ochr â'r modd rydym yn cadw ein dilynwyr cyfredol.
- Y nifer o adegau mae ymweliad i'r wefan o ganlyniad i stori newyddion



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Fframwaith Deddfwriaethol

Mae'r Tîm Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu a'i weithgareddau yn rhwym i'r Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn llythrennol ac yn yr ysbryd, yn ogystal â chydymffurfio i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rydym hefyd yn rhwym i gyfansoddiad y Cyngor ei hun, ynghyd â'r amrywiol bolisïau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y sefydliad.

# Cysylltwch â ni


corporate.communications@merthyr.gov.uk

01685 725166

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Merthyr Tydfil CBC

MerthyrCBC

Merthyr Tydfil CBC